# ATODIAD A

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **13 Medi 2011** |
| **TEITL** | Ymateb i'r Ymgynghoriad ar ddyfodol Cartref Preswyl Hafod y Gest, Porthmadog. |
| **AWDUR** | Gwen Carrington, Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cynghorydd Wyn Williams |
| | |
| **Beth sydd angen ei graffu a pham?** | • Y broses ymgynghori a'r cloriannu o'r ymatebion sydd wedi eu derbyn<br>• Yr argymhellion a gynigir yn dilyn yr ymgynghoriad. |
| **A oes rhywbeth arall sydd angen i'r Pwyllgor Craffu ei wneud?** | Ystyried gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r Cynllun Tai Gofal Ychwanegol arfaethedig ym Mhorthmadog. |
| **Beth yw'r camau nesaf?** | Cyflwyno argymhellion i Fwrdd y Cyngor ar 11 Hydref, 2011 a chael penderfyniad ar y ffordd ymlaen. |

**1 Pwrpas yr adroddiad.**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw:-

- Adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol ar ddyfodol cartref preswyl Hafod y Gest, Porthmadog.
- Amlinellu'r cyfleoedd sy'n bodoli i foderneiddio darpariaeth llety a gofal ar gyfer pobl hŷn yn ardal Porthmadog
- Cyflwyno argymhellion y Bwrdd Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn ar ddyfodol gofal preswyl a thai gofal ychwanegol yn ardal Porthmadog.

## 2. Gweledigaeth

**2.1** Mae gweledigaeth y Cyngor yn seiliedig ar ddyheadau pobl hŷn Gwynedd, sef hybu a chynnal annibyniaeth unigolion bregus gan eu galluogi i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosib. I wneud hyn cytunwyd eisoes i gynyddu'r gefnogaeth sydd i'w gael i unigolion fyw gartref a hefyd i gynyddu'r dewis o safbwynt y llety sydd ar gael. Canlyniad anorfod gweithredu'r weledigaeth hon yw lleihad yn yr angen am ofal preswyl cyffredin. Mae'r lleihad eisoes yn amlwg yn y nifer o welyau gwag sydd yng nghartrefi'r sir. Mae hyn wedi'i gydnabod gan y Cyngor wrth benderfynu ar y cyfeiriad strategol sydd wedi'i fabwysiadau a bellach sy'n cael ei weithredu.

## 3 Cefndir yr ymgynghoriad

3.1 Derbyniwyd **'**Cam 1' yr Adolygiad Strategol o Wasanaethau Preswyl a Nyrsio gan Fwrdd y Cyngor ym mis Chwefror 2009. Amcan yr adroddiad oedd asesu'r gwasanaeth presennol ac ystyried sut y dylai'r gwasanaeth edrych yn y dyfodol. Prif gasgliadau Cam 1 oedd y dylid:

- lleihau nifer y gwelyau preswyl traddodiadol
- cynyddu nifer y gwelyau mewn Tai Gofal Ychwanegol
- cynyddu nifer y gwelyau nyrsio (yn enwedig mewn rhai ardaloedd)
- cynyddu nifer y gwelyau i'r rhai â phroblemau cof (preswyl a nyrsio).

Fel rhan o Strategaeth Arbedion Cyngor Gwynedd 2010/13 cymeradwywyd cynlluniau arbedion o £1,300,000 erbyn Ebrill 2012 ym maes darpariaeth gofal preswyl a nyrsio. Er bod llithriad yn y rhaglen, mae'r targed ariannol yn parhau.

Derbyniwyd Cam 2 gan Fwrdd y Cyngor ym mis Hydref 2010; a phrif gasgliadau Cam 2 oedd:-

- Cymeradwyo'r bwriad i gael defnydd y Cyngor o ofal preswyl a nyrsio i fod yn agos at gyfartaledd Cymru Gyfan erbyn 2015.
- Cymeradwyo'r cam interim er mwyn i'r Cyngor gyrraedd cyfartaledd Cymru Gyfan am 2008/09 erbyn 2012/13, sef 22.4 gwely preswyl fesul 1000 o'r boblogaeth pobl hŷn.

3.2 Penderfynodd Bwrdd y Cyngor ar 22 Chwefror, 2011 yn dilyn adroddiad ar yr "Adolygiad Strategol Gwasanaethau Preswyl a Nyrsio Pobl Hŷn" i:

**"Awdurdodi ymarferiad ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â dyfodol Hafod y Gest, Porthmadog ac i hynny gychwyn ar ôl cyflwyno adroddiad manwl ar Dai Gofal Ychwanegol yn nalgylch Porthmadog ac ar ôl cyflwyno'r adroddiad hwnnw i'r Fforwm Ardal Tai Gofal Ychwanegol Lleol."**

Cyflwynwyd yr adroddiad dan sylw i Fforwm Ardal Porthmadog ar 15 Mawrth, 2011.

4. **Cartref Hafod y Gest, Porthmadog**

4.1 Cartref preswyl cofrestredig ar gyfer 30 person hŷn (65+) yw Hafod y Gest. O'r 30 uned mae dwy uned ar gyfer gofal ysbaid a chwe uned ar gyfer pobl hŷn sydd yn dioddef o broblemau cof cymedrol. Mae'r uchafswm o bobl all fyw yn y cartref bellach wedi ei gyfyngu i 20 gan fod angen gwneud gwaith i fodloni anghenion tân.

4.2 Cyflogir 20 aelod staff parhaol (llawn a rhan amser) a 9 aelod o staff llanw.

4.3 Nodir yn yr adroddiad aeth i'r Bwrdd ar 22 Chwefror,2011 sylwadau penodol am gyflwr adeilad cartref Hafod y Gest a'r gofynion gwariant sylweddol sydd ar y cartref. Ym mis Mehefin 2009 comisiynwyd adroddiad cyfansawdd gan ymgynghorwyr arbenigol annibynnol i edrych ar bob agwedd o'r adeiladwaith. Gweler manylion y gwaith a'r gost yn y tabl isod.

| **Disgrifiad** | **Swm** | **Unwaith ac am byth/parhaol** | **Cyfalaf/ Refeniw** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|---|
| Gwaith i fodloni gofynion yr asesiad risg tan | £110,000 | Unwaith ac am byth | Cyfalaf | Mae hwn yn waith angenrheidiol i'r cartref allu parhau i gadw eu cofrestriad yn 30 |
| Gwaith cynnal a chadw dros y deng mlynedd nesaf | £572,000 (dylid ymgymryd â £462,000 o'r gwaith hwn yn fuan) | Unwaith ac am byth | Refeniw | Mae hwn yn waith angenrheidiol |
| Uwchraddio'r adeilad i safonau defnydd ynni cyfredol | £198,000 | Unwaith ac am byth | Cyfalaf | |
| Addasu'r ac ymestyn yr adeilad i gynnwys cyfleusterau en suite, | £1,320,000 | Unwaith ac am byth | Cyfalaf | Nid yw hwn yn waith angenrheidiol ond fe fyddai peidio â gweithredu yn golygu na fyddai'r cartref yn ymateb i ddyheadau a disgwyliadau defnyddwyr y dyfodol |

4.4 Cost uned Gartref Hafod y Gest fel cartref 30 uned yw £457.94 yr wythnos. Mae hyn yn llai na chyfartaledd cost uned cartrefi’r Cyngor sydd yn £564.76 yr wythnos. Mae’r ffigwr £564.76 ar sail defnydd o 88.1%, sef cyfartaledd disgwyliedig ar gyfer holl gartrefi’r Cyngor. Er mwyn sicrhau bod Cartref Hafod y Gest yn cwrdd â’r ffigwr cyfartaledd, byddai angen i Gyngor Gwynedd flaenoriaethu a gwario’r symiau sylweddol fel y nodir yn 3.3 uchod.

4.5 Roedd y prosiect *Adeiladu i’r Dyfodol* wedi adnabod yr angen am dai gofal ychwanegol ym Mhorthmadog yn 2007. Yn ôl yr asesiad anghenion o ddarpariaeth gofal preswyl traddodiadol a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 22 Chwefror, 2011, amcangyfrifwyd bod gormodedd o 32 o welyau.

.

## 5. Y Broses Ymgynghori

5.1 Yn yr ymgynghoriad ar ddyfodol cartref preswyl Hafod y Gest Porthmadog o 22 o Fawrth hyd at 1af o Orffennaf 2011 cynigiwyd dau opsiwn sef:

**Opsiwn 1 –** Buddsoddi yn y cartref presennol a'i wella i safon fyddai'n cyfarch dyheadau trigolion i'r dyfodol.

**Opsiwn 2 –** Buddsoddi i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol a gwasanaethau cymunedol i gefnogi pobl i fyw gartref ond cau'r cartref presennol.

5.2 Anfonwyd 410 pecyn gwybodaeth a holiadur yn ogystal â'r daflen wybodaeth *"Mae gofal cymdeithasol yn newid"* a gyhoeddwyd gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd (Atodiad 1) at bawb oedd ar y rhestr budd-ddeiliaid (Atodiad 2) ac unrhyw un arall a gysylltodd gyda'r Cyngor i wneud cais am wybodaeth. Ar ddechrau'r cyfnod hysbyswyd y budd-ddeiliaid a'r gymuned leol ym Mhorthmadog o'r ymgynghoriad naill ai drwy lythyr, drwy rybudd ffurfiol yn y wasg, datganiadau i'r wasg neu mewn cyfarfodydd.

5.3 Rhoddwyd cynnig i'r defnyddwyr gwasanaeth i gyd dderbyn cymorth Gwasanaeth Adfocatiaeth Gogledd Cymru i gymryd rhan yn y drefn ymgynghori. Penderfynodd pump o'r defnyddwyr gymryd mantais o'r cynnig hwn.

## 6 Casgliadau'r Ymgynghoriad

6.1 Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 1 Gorffennaf, 2011. Derbyniwyd 133 ymateb drwy holiadur, adroddiad gan yr Adran Darparu a Hamdden, 5 llythyr ac un galwad ffôn.

6.2 Gwelir canlyniad yr ymgynghoriad yn llawn yn Atodiad 3. Yn ogystal â gofyn barn ar y ddau opsiwn, lluniwyd holiadur hefyd. Amlinellir isod y prif gasgliadau.

- Roedd gan 42.1% a ymatebodd gysylltiad gyda'r cartref
- Roedd 53.4% yn cytuno â chynlluniau Cyngor Gwynedd i helpu pobl hŷn i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain
- Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd yn cytuno y dylai Cyngor Gwynedd fuddsoddi yn ychwanegol mewn gwasanaethau i gynorthwyo pobl hŷn i barhau i fyw gartref. Roedd 76.7% am weld gofal cartref yn datblygu,

67.7% am weld datblygiad yn y gwasanaethau gofal dydd a 51.9% am weld datblygiad yn y gwasanaethau gofal canolraddol.

- Roedd 41.4% yn cefnogi bwriad Cyngor Gwynedd i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog
- Roedd 61.7% yn credu ei fod yn rhesymol i Gyngor Gwynedd fuddsoddi £462,000 yn y tymor byr i gynnal adeilad Hafod Y Gest a £1,320,000 yn y dyfodol i addasu'r cartref.
- Roedd 79.7% yn credu y dylid buddsoddi yn y cartref presennol a'i wella i safon fyddai'n cyfarch dyheadau trigolion i'r dyfodol sef Opsiwn 1.
- Roedd 11.3% o blaid datblygu Tai Gofal Ychwanegol a gwasanaethau cymunedol i gefnogi pobl i fyw gartref ond cau'r cartref presennol.

.

6.3 Derbyniwyd ymateb gan yr Adran Darparu a Hamdden i'r ymgynghoriad ar ran staff y Cartref yn ogystal â barn rheolwyr ac uwch reolwyr yr Adran.

Er yn gefnogol i'r weledigaeth o hybu annibyniaeth a'r angen am darpariaethau newydd sydd yn cwrdd ag anghenion pobl hŷn, mae'r Adran yn mynegi pryder am nifer o faterion. Ymhlith y materion hynny diffyg cynlluniau pendant am yr hyn fyddai ar gael yn lle Cartref Hafod y Gest a phryder am ddyfodol y preswylwyr presennol. Mae'r ymateb hefyd yn cwestiynu cost yr addasiadau i'r adeilad a'r diffyg gwybodaeth am gost uned yn Hafod y Gest a darpariaethau gofal eraill.

Mae'r Adran yn cynnig y dylid ail ymweld â natur y ddarpariaeth bresennol o fewn tai gwarchod yn ogystal ag ystyried modelau eraill sy'n cynnal annibyniaeth o fewn cymunedau megis *Enfys.* Cynigir hefyd y dylid cynnal y ddarpariaeth breswyl bresennol o fewn Hafod y Gest am gost cyfalaf cymharol isel hyd nes bydd cynlluniau amgen wedi eu paratoi.

6.4 Mae Adroddiad Gwasanaeth Adfocatiaeth a Chynghori Gogledd Cymru ar ran y pum defnyddiwr dderbyniodd y cynnig i ddefnyddio'r gwasanaeth yn nodi pa mor bwysig ydy cwmnïaeth preswylwyr eraill a staff iddynt. Hafod y Gest oedd y dewis cyntaf i'r mwyafrif ond fe nododd dau y bydden nhw'n hoffi byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ond nad oedd hynny'n adlewyrchiad ar Hafod y Gest.

6.5 Yn ychwanegol i'r uchod, derbyniwyd 5 llythyr ac un galwad ffôn a oedd yn canmol y gofal a ddarperir yng Nghartref Hafod y Gest ac yn pwysleisio'r angen am ddarpariaeth breswyl newydd yn ardal Porthmadog.

## 7. Ymateb Cyngor Tref Porthmadog

7.1 Yn dilyn cyfarfod arbennig o Gyngor Tref Porthmadog ar 7 Mehefin, 2011 penderfynodd yr aelodau beidio llenwi holiadur yr ymgynghoriad ond yn hytrach "*Cynnal arolwg barn mewn ffurf holiadur gan holl drigolion Porthmadog am ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar ddyfodol Cartref Hafod y Gest a'u dyheadau o ran gofalu am bobl hŷn yr ardal i'r dyfodol".* Mae Atodiad 4 yn cynnwys y ddogfennaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Tref Porthmadog.

7.2 Dosbarthwyd oddeutu 2400 o holiaduron Cyngor Tref Porthmadog ac fe ddychwelwyd 502. Roedd yr ymateb yn debyg iawn i'r ymateb a dderbyniwyd gan y Cyngor sef canmoliaeth uchel i'r gofal gaiff ei ddarparu yn Hafod y Gest a 58.11% yn ffafrio buddsoddi yn Hafod y Gest. Gofynnwyd hefyd y cwestiwn "*Pe byddid yn bwrw ymlaen gyda'r Tai Gofal Ychwanegol ple y dylid eu hadeiladu?"* Atebodd 72.75% "*ar safle presennol Hafod y Gest".*

## 8 Ymateb i sylwadau'r ymgynghoriad

8.1 Mae Cyngor Gwynedd yn ymfalchïo yn safon y gofal gaiff ei ddarparu yng nghartref Hafod y Gest ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiadau diweddar yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

8.2 Ni ellir anwybyddu'r costau, fel nodir ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad, fyddai ynghlwm i sicrhau dyfodol Hafod y Gest am gyfnod o tua 20 mlynedd. Derbynnir y byddai modd gwario symiau llai i'w gynnal dros dro ond ni ellir dadlau fod angen gwariant sylweddol ar yr adeilad i sicrhau ei fod yn ymateb i ddisgwyliadau trigolion i'r dyfodol.

8.3 Mynegwyd pryder yn yr ymgynghoriad am ddyfodol preswylwyr presennol Hafod y Gest. Ar hyn o bryd mae 14 preswylydd yn byw yng nghartref Hafod y Gest yn barhaol gyda hyd at 5 person yn derbyn gofal ysbaid. O wybodaeth a gasglwyd rhwng 9 -13 Gorffennaf 2011, ymddengys bod capasiti yn y cartrefi lleol fyddai yn cyfarfod anghenion preswylwyr presennol Hafod y Gest a'r rhai hynny sy'n derbyn gofal ysbaid ac yn diwallu anghenion preswyl a nyrsio i'r dyfodol. Yn nalgylch Porthmadog mae'r sefyllfa gyfredol fel a ganlyn:-

| Cartref | Nifer o welyau gwag preswyl | Nifer o welyau gwag nyrsio | Nifer o welyau gwag preswyl ar gyfer pobl gyda phroblemau cof | Nifer of welyau gwag nyrsio ar gyfer pobl gyda phroblemau cof |
|---|---|---|---|---|
| Plas Newydd, Cricieth | 1 | | | |
| Pines, Cricieth | | | 1 | 7 |
| Bryn Awelon, Cricieth | 4 gwely ymgyfnewidiol | | | |
| Madog, Porthmadog | 0 | 1 | | |
| Bodawen, Porthmadog | 1 | 5 | | |
| Plas Gwyn, Pentrefelin | 0 | 1 | | |
| Bryn Blodau, Llan Ffestiniog | 5 | 0 | 0 | |
| Plas y Don, Pwllheli | 5 | 0 | | |
| Cyfanswm | 12(neu16) | 7(neu11) | 1 | 7 |

8.4 Cydnabyddir fod cefnogaeth gref yn lleol i gadw’r cartref ar agor. Ond, mae’n bwysig nodi fod rhan sylweddol o'r ymatebion a dderbyniwyd hefyd yn gefnogol i'r egwyddor o gynorthwyo pobl hŷn i barhau i fyw gartref. Nodwyd dymuniad i weld datblygu ym meysydd gofal cartref, gofal dydd a hefyd gofal canolraddol. Yn ychwanegol at hyn mae gan y Cyngor raglenni penodol i ddatblygu teleofal , galluogi a chynlluniau cymunedol sydd yn cyfrannu at becyn o ddewisiadau i gefnogi unigolion.

## 9. Cyfeiriad strategol y Cyngor

9.1 Mae gwaith ymchwil Einir Roberts *O Lygaid y Ffynnon,* 2010 yn ategu gwaith lleol a chenedlaethol tebyg yn y gorffennol wrth ddangos yn glir fod trigolion Gwynedd yn dymuno derbyn gwasanaethau sy'n eu cynnal yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosib.

9.2 Un o ganlyniadau allweddol Cynllun Tair Blynedd Cyngor Gwynedd 2011-14 ydy sicrhau fod ***Pobl a phlant bregus yn derbyn cefnogaeth i fyw bywyd bodlon.*** Un mynegiant o hynny ydy fod oedolion bregus yn cael dewis o gefnogaeth addas i fyw'n annibynnol yn y gymuned a dewis o lety addas i'w anghenion.

9.3 Prif fuddiant y Prosiect Trawsffurfio Gwasanaethau Pobl Hŷn o fewn y Rhaglen Gofal fydd cynyddu'r dewis o gefnogaeth a llety addas sydd ar gael i bobl hŷn Gwynedd i'w galluogi i fyw'n annibynnol yn y gymuned

9.4 Erbyn 2014 cytunwyd i leihau'r nifer o welyau preswyl yng Ngwynedd i 599 ac i agor 35 uned tai gofal ychwanegol ym Mhorthmadog.

## 10. Datblygu Tai Gofal Ychwanegol (TGY) ym Mhorthmadog

10.1 Mae trafodaethau diweddar ynglŷn â darparu TGY ym Mhorthmadog yn bennaf gyda Chymdeithas Tai Eryri wedi cynnwys adnabod safle a sut i ariannu'r datblygiad. Mae Cymdeithas Tai Eryri o'r farn mai datblygu safle Hafod y Gest yw'r opsiwn gorau. O wneud hyn gellir datblygu cynllun o tua 40 uned fyddai yn cynnwys 27 uned 2 lofft a 15 uned 1 llofft

Mae cefnogaeth gref (41.4%) i fwriad y Cyngor i ddatblygu tai gofal ychwanegol ym Mhorthmadog a 72.75% o'r rheini atebodd holiadur y Cyngor Tref yn ffafrio lleoli'r tai gofal ychwanegol ar safle Hafod y Gest.

10.2 Cost y cynllun llawn fyddai £6.5m ond mi fyddai hyn yn golygu lefelau rhent anfforddiadwy. I'w gostwng i lefel fwy rhesymol byddai yn denu taliadau budd-dal tai mi fyddai angen cyfraniad o ryw fath i gynorthwyo Cymdeithas Tai Eryri (CTE) gyda'r costau ynghyd â rhyddhau'r safle yn ddi-dâl. Mae trafodaethau hyd yn hyn yn awgrymu angen am gyfraniad o hyd at £1.5 miliwn. Mae cais hefyd wedi'i dderbyn i'r Cyngor ryddhau'r safle yn ddi-dâl i'r Gymdeithas.

.

10.3 Fe gofia'r aelodau nas cymeradwywyd cais cynllunio TGY Llan Ffestiniog. Mae Bwrdd Cymdeithas Tai Eryri wedi cymeradwyo cyflwyno apêl yn erbyn y penderfyniad yn amodol ar dderbyn Cyngor cyfreithiol arbenigol. Rhagwelir na fydd penderfyniad apêl ar gael am o leiaf chwe mis.

10.4 Mae cyfle yma felly i ystyried defnydd amgen o’r grant tai cymdeithasol a ddyrannwyd i’r cynllun hwnnw a’i drosglwyddo, yn ôl yr angen, i gynorthwyo gydag ariannu datblygiadau o dai gofal ychwanegol ym Mhorthmadog a Bangor. I hyn ddigwydd mi fyddai angen caniatâd i symud yr adnoddau gan y Cynulliad ac mewn trafodaethau cychwynnol roeddent yn agored i dderbyn ac ystyried cais i drosglwyddo’r grant o Lan Ffestiniog gyda’r nod o sicrhau cynllun hyfyw ym Mhorthmadog a Bangor.

10.5 Ar y rhagdybiaeth y bydd penderfyniad ar ddyfodol Hafod y Gest ym mis Hydref, mae Cymdeithas Tai Eryri yn rhagweld

- cyflwyno cais cynllunio Ionawr 2012
- derbyn caniatâd cynllunio Ebrill 2012
- cychwyn gwaith ar y safle Haf 2012
- cwblhau’r cynllun ddiwedd Hydref 2013.

Yn yr un modd rhagwelir y bydd Cymdeithas Tai Gogledd Cymru yn medru cychwyn gwario yn y flwyddyn ariannol bresennol (2011/12) ar y datblygiad TGY ym Mangor.

## 11 Ystyriaethau Allweddol

11.1 I grynhoi'r ystyriaethau allweddol:-

i) mae’r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth sylweddol i'r opsiwn o fuddsoddi yn y cartref presennol ac yn canmol safon y gofal yno.

ii) mae’r ymgynghoriad hefyd yn dangos cefnogaeth i ddatblygu tai gofal ychwanegol ym Mhorthmadog ac i hynny ddigwydd ar safle presennol Hafod y Gest.

iii) mynegwyd dyhead cryf i ddatblygu gwasanaethau sy’n cefnogi unigolion i fyw gartref.

iv) mae gwlâu preswyl a nyrsio ar gael yn yr ardal i ymateb i ofynion presennol ac i'r dyfodol.

v) i ddatblygu Hafod y Gest i fod yn gartref fyddai yn ymateb i ddyheadau pobl yn y dyfodol, mae angen gwariant sylweddol (gweler 4.3.)

vi) mae’r Cyngor eisoes wedi cytuno i gefnogi mwy o bobl yn byw gartref, cynyddu nifer y tai gofal ychwanegol a lleihau nifer y gwlâu preswyl traddodiadol sydd ar gael yng Ngwynedd

11.2 Wrth ystyried y ddau opsiwn fu'n destun yr ymgynghoriad mae'n briodol eu gosod yn erbyn y penderfyniadau strategol mae'r Cyngor eisoes wedi'u cymryd:

| Meini Prawf | Opsiwn 1 - Buddsoddi yn y cartref presennol a'i wella i safon fyddai'n cyfarch dyheadau trigolion i'r dyfodol. | Opsiwn 2 - Buddsoddi i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol a gwasanaethau cymunedol i gefnogi pobl i fyw gartref ond cau'r cartref presennol. |
|---|---|---|
| Lleihau gwelyau preswyl traddodiadol a dod yn nes at gyfartaledd<br><br>Cymru (Penderfyniad Bwrdd y Cyngor, 12 Hydref, 2010) | X | √ |
| Cynyddu nifer y Tai Gofal Ychwanegol yng Ngwynedd (Penderfyniad Bwrdd y Cyngor, 17 Chwefror, 2009) | X | √ |
| Cyfrannu at darged arbedion o £1.3 miliwn erbyn Ebrill 2012 (Penderfyniad Bwrdd y Cyngor, 1 Rhagfyr, 2009) | X | √ |

11.3 Ar sail yr ystyriaethau hyn, argymhellir dod â defnydd presennol yr adeilad fel cartref preswyl i ben.

11.4 Gellir gweld yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar yr argymhellion yn Atodiad 5.

## 12. Argymhellion y Bwrdd Prosiect

12.1 Ar sail gwireddu amcanion strategol y Cyngor, argymhellir:-

a) dod â defnydd o Hafod y Gest fel cartref preswyl i ben a hynny wedi ei amseru yn unol ag amserlen datblygu tai gofal ychwanegol ar y safle

b) sicrhau asesiadau o drigolion presennol Hafod y Gest ac ail gartrefu'r trigolion yn unol â'u hanghenion unigol.

c) cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd i drosglwyddo'r safle yn ddi-dâl i Gymdeithas Tai Eryri.

ch*)* cefnogi'r Aelod Portffolio a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i gyflwyno cais ffurfiol i Lywodraeth Cymru i arallgyfeirio grant tai cymdeithasol a ddyrannwyd i adeiladu TG yn Llan Ffestiniog i ddatblygu cynlluniau TGY Porthmadog a Bangor.

**Atodiad 1**
Pecyn Gwybodaeth gan gynnwys y daflen - *Mae gwasanaethau cymdeithasol yn newid*

**Atodiad 2**
Rhestr o’r budd-ddeiliaid anfonwyd pecyn gwybodaeth atynt

**Atodiad 3**
Canlyniad yr holiadur

**Atodiad 4**
Dogfennaeth a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Porthmadog.

**Atodiad 5**
Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar yr Argymhellion a gyflwynir